



Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Buasen ni'n hoffi gwybod beth rydych chi'n feddwl



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o: **Ddogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru: Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru.**

Gorffennaf 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn **glas cyffredin**. Gallwch edrych beth mae'n feddwl ar dudalen 24.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Y Gangen Gofal Cymhleth a Gofal heb ei Drefnu ac Anableddau
Yr Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr, Gogledd Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Gwefan:

llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-drafft-ar-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

E-bost: FframwaithGIP.Ymgynghoriad@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Ynglŷn â Gofal Iechyd Parhaus y GIG.....	4
Y newidiadau.....	6
1. Ei wneud yn gliriach.....	6
2. Asesiad.....	8
3. Penderfynu a yw person yn gymwys i gael GIP.....	14
4. Darparu ac archwilio gwasanaethau.....	16
5. Cysylltiad â pholisïau eraill.....	19
6. Pan fydd pobl ddim yn hapus gyda'u GIP.....	21
Geiriau anodd.....	24

Ynglŷn â Gofal Iechyd Parhaus y GIG



Mae ar rai pobl angen gofal a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer eu hiechyd.



Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) yw'r enw sy'n cael ei roi i'r gofal a'r gefnogaeth hon. Byddwn yn galw hyn yn **GIP** o hyn ymlaen yn y ddogfen hon.



Mae pobl yn cael y gofal hwn trwy eu bwrdd iechyd. Mae tua 5000 o bobl yn cael y gefnogaeth hon yng Nghymru.



Mae gennym ni ganllaw sy'n dweud sut rydyn ni'n darparu GIP. Mae'n dweud:



- Pwy sy'n gallu ei gael.
- Y pethau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu gwneud.
- Y pethau y mae'n rhaid i gynghorau eu gwneud.



Fe edrychon ni yn y canllaw i weld sut rydyn ni'n darparu GIP. Roedden ni'n gweithio gyda phobl o:

- fyrrddau iechyd
- cyngorau
- elusennau.



Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r pethau rydyn ni'n meddwl y dylen ni newid i wneud y canllaw yn well.



Fe hoffen ni wybod beth rydych chi'n ei feddwl.



Gallwch ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl trwy lenwi **ffurflen ymateb Gofal Iechyd Parhaus y GIG**.



Darllenwch y ddogfen hon gyntaf. Yna llenwch y ffurflen ymateb.

Y newidiadau

1. Ei wneud yn gliriach



Y broblem:

Gall y canllaw fod yn ddryslyd.



Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:

Fe ddylen ni newid trefn y canllaw i'w wneud yn haws ei ddilyn.



Mae arnon ni eisiau i'r canllaw fod yn y drefn hon:



1. Y prif nodau.



2. Pwy sydd angen gwneud beth.

3. Pethau i feddwl amdany'n nhw cyn **asesiad**.



Mae **asesiad** yn digwydd pan fydd rhywun yn edrych ar eich anghenion gofal a chefnogaeth ac yn meddwl sut mae cwrdd â'r anghenion hynny.



4. Sut mae gwneud **asesiad**.



5. Sut y byddwn ni'n penderfynu a yw person yn **gymwys** i gael GIP.

Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi'r hawl i gael GIP oherwydd eich anghenion iechyd.



6. Sut rydyn ni'n darparu GIP. A gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio ar gyfer pobl.



7. Gwneud yn siŵr ein bod yn diweddarau deddfau a chynlluniau pwysig ar gyfer rhoi gofal i bobl.



8. Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn anhapus ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch GIP person.



9. Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn meddwl y dylen nhw fod wedi cael GIP pan nad ydyn nhw wedi ei gael.

2. Asesiad

Rydyn ni wedi rhannu hwn yn rhannau llai:

Cynllunio asesiad

Y prif newidiadau yw:



- Sut i asesu beth sydd ar rywun ei angen.



- Beth fydd ar y tîm fydd yn gweithio gyda'r person angen ei wneud.



- Sut y bydd y bwrdd iechyd a'r cyngor yn cefnogi gofalwyr.



- Rheolau newydd i weld a yw pobl yn gallu rhoi eu **caniatâd**.

Mae **caniatâd** yn meddwl cytuno i rywbeth. Er enghraifft, cytuno i gael math o ofal iechyd a chefnogaeth.



- Gwneud yn siŵr y gall pobl gael **eiriolwr**.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n siarad ar eich rhan.




- Beth i'w wneud pan nad yw'r **galluedd** gan rywun.

Pan nad yw'r **galluedd** gan rywun mae'n meddwl nad yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

Defnyddio rhestr wirio



Rhestr o bethau y gellir eu gwirio yw hon i weld a oes angen GIP ar rywun. Neu a ddylai'r person fod wedi cael GIP.



Rydyn ni wedi ysgrifennu cyngor ar sut i ddefnyddio'r rhestr wirio.

Gwirio a yw rhywun yn gymwys ar gyfer GIP



Rydyn ni wedi gwneud newidiadau fel bo **asesiadau** yn digwydd:



- ar yr adeg iawn ar gyfer y person
- yn y lle iawn ar gyfer y person.



Dylai unrhyw gynlluniau ar gyfer GIP gael eu gwneud ar ôl i'r person ddod allan o'r ysbyty.



Ni ddylai cynllunio ar gyfer GIP achosi i'r person aros yn yr ysbyty am fwy o amser.



Rydyn ni wedi ychwanegu mwy o wiriadau i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gofal gorau ar gyfer eu hanghenion.



Defnyddio Offeryn Cefnogi Penderfyniad

Mae **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** yn ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch pwy sydd angen GIP.



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod staff yn defnyddio **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** yn iawn. Rydyn ni wedi gwneud y rheolau yn fwy clir:



- Mae'n rhaid i benderfyniadau ynghylch **cymhwyster** gael eu hegluro yn glir i bob person.



- Os oes gan berson **alluedd** mae'n rhaid iddyn nhw gytuno ein bod yn defnyddio'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



- Dylai pobl gael y cyfle i fynd i gyfarfod **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



- Beth yw rôl staff wrth gwblhau'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



- Sut i ddweud wrth bawb beth sy'n mynd i ddigwydd.



Rydyn ni'n edrych ar 12 maes o anghenion pobl. Bydd y rhain yn aros yr un fath. Fe hoffon ni wneud newidiadau bach i wneud rhai meysydd yn gliriach. Gan gynnwys:



- Ymddygiad.



- Symudedd – er enghraifft, pa mor hawdd yw hi i berson symud o gwmpas.



- Maeth – er enghraifft y bwyd mae person yn ei fwyta.



- Anghenion Seicolegol ac Emosiynol – mae hyn yn meddwl iechyd meddwl y person neu sut mae'n teimlo.



- Gwybyddiaeth – mae hyn yn meddwl pethau sy'n ymwneud â'n hymennydd fel cof a meddwl.



- Meddyginiaeth.



- Anghenion gofal pwysig eraill.



Beth i'w wneud mewn argyfwng

Rydyn ni wedi newid y cyngor a'r geiriad ynghylch beth i'w wneud pan fydd argyfwng.



Er enghraifft, efallai y bydd bwrdd iechyd yn penderfynu peidio â gwneud **asesiad** GIP nes bod yr argyfwng drosodd.



Ond fe fyddan nhw'n dal i fod yn gyfrifol am y person. Mae'n rhaid i'r person gael ei gadw'n ddiogel. Ac mae'n rhaid iddyn nhw gael y gofal sydd ei angen arnyn nhw.

3. Penderfynu a yw person yn gymwys i gael GIP

Y broblem:



Pan fydd tîm yn penderfynu a yw person yn **cymwys** i gael GIP dydyn ni ddim yn meddwl bod pawb yn gweithio yn yr un ffordd.

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:



Mae arnon ni eisiau gwneud newidiadau fydd yn helpu pawb i weithio yn yr un ffordd. Mae arnon ni eisiau dweud bod:



- Yn rhaid i'r tîm gynnwys y person. A'u helpu i ddweud eu barn.



- Gall y bwrdd iechyd ofyn am fwy o wybodaeth pan nad ydyn nhw'n cytuno â'r pethau mae'r tîm yn ei ddweud.



- Pan na fydd y tîm yn medru penderfynu beth i'w wneud mae'n rhaid iddyn nhw ei ysgrifennu i lawr a dweud pam.



- Mae'n rhaid i'r tîm ddweud wrth y bwrdd iechyd a'r person beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd.



- Mae'n rhaid i'r tîm egluro eu penderfyniad yn ysgrifenedig i'r person cyn gynted â phosibl.



Mae'n rhaid iddyn nhw egluro pam y gwnaethon nhw'r penderfyniad hwnnw. A chynnwys copi o'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



Mae'n rhaid iddo gael manylion ynghylch pwy i gysylltu â nhw am fwy o help. A sut i ofyn am **adolygiad**.



Os yw'r person yn mynd i gael GIP fe ddylen nhw ddweud pa fath o ofal a chefnogaeth y bydd yn ei gael.



Os nad ydy o'n mynd i gael GIP fe ddylai glywed pa ddewisiadau eraill o ofal a chefnogaeth sydd ar gael.

4. Darparu ac archwilio gwasanaethau

Y broblem:



Y byrddau iechyd fydd yn cynllunio a darparu GIP. Ond bydd arnyn nhw angen gweithio gyda mudiadau eraill fel y cyngor.



Weithiau bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y mae GIP yn gweithio.

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:



Cefnogi pobl sy'n cael GIP yn eu cartrefi.



Gwneud y pethau y mae'r GIG yn gyfrifol amdany'n nhw'n gliriach pan fyddan nhw'n rhoi GIP i rywun yn ei gartref ei hun.



Ysgrifennu yn y canllaw bod cynghorau yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu rhan mewn darparu GIP i bobl yn eu cartrefi eu hunain.



Taliadau Uniongyrchol

Ni chaiff Taliadau Uniongyrchol gael eu defnyddio i dalu am wasanaethau y mae'n rhaid i'r GIG eu darparu.



Ond dylai byrddau iechyd a chynghorau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn cael y gofal gorau. A bod pobl yn medru rheoli pethau.



Edrych a yw rhywun yn dal yn gymwys i gael GIP

Mae arnon ni angen dal ati i weld a yw pobl yn dal yn **gymwys** i gael GIP. Dydy hyn ddim yn newydd.



Ond mae'n arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod cynllun gofal person yn dal i gwrdd â'i anghenion. Mae arnon ni eisiau gwneud newidiadau fydd yn help i'r gwiriadau hyn ddigwydd yn y ffordd iawn:



- Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** mwyaf newydd.




- Mae'n rhaid i ni wneud **asesiad** newydd os yw anghenion person wedi newid.



- Mae'n rhaid i fyrddau iechyd siarad â'r cyngor cyn gwneud perderfyniadau.



- Mae'n rhaid parhau i gwrdd ag anghenion gofal y person yn ystod y gwiriad.



Mae arnon ni hefyd eisiau ychwanegu mwy o wybodaeth i ddweud beth yw pwrpas y gwiriad.

5. Cysylltiad â pholisïau eraill



Mae **polisiau** yn rheolau sy'n dweud pa ffordd i wneud pethau.

Y broblem:



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod y canllaw ar gyfer darparu GIP yn un sydd wedi ei ddiweddarau ochr yn ochr â **pholisïau** newydd.

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:

Iechyd meddwl



Mae rhai pobl yn gallu cael gwasanaethau fel rhan o ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Iechyd Meddwl**. Fyddan nhw ddim yn gallu cael y gwasanaethau hynny fel rhan o GIP.



Amddifadu o Ryddid

Mae deddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Galluedd Meddyliol**. Mae rhan o'r ddeddf hon yn cael ei galw'n **Amddifadu o Ryddid**.



Pan fydd pobl yn cael eu heffeithio gan y ddeddf hon ddylai hynny ddim eu rhwystro rhag cael GIP.

Plant a phobl ifainc yn symud at wasanaethau i oedolion



Dylai hyn gael ei wneud gyda chymaint o ofal â phosibl. Mae'n rhaid i'r **asesiad** ddigwydd erbyn y bydd y plentyn yn 16 oed.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Oedolion ag anabledd dysgu

Mae hyn wedi cael ei ddiweddarau i gyd-fynd â **chanlyniadau** Llywodraeth Cymru.



Mae **canlyniadau** yn nodau a ddylai gael eu cyrraedd trwy'r gofal a'r gefnogaeth sy'n cael eu rhoi.

6. Pan fydd pobl ddim yn hapus gyda'u GIP

Y broblem:



Mae ar fyrddau iechyd ar draws Cymru angen gweithio yn yr un ffordd pan fydd rhywun yn gwneud cwyn.

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:



Pan na fydd tîm yn cytuno ynglŷn â'r pethau sydd eu hangen ar berson, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud o fewn 48 awr.



Mae rheolau newydd ynghylch sut i ddelio ag anghytuno.



Bydd yn rhaid i fyrddau iechyd ddweud wrth bobl beth fydd yn digwydd nesaf os byddan nhw'n anghytuno ynghylch penderfyniad ynglŷn â GIP.



Mae'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wirio o fewn 28 diwrnod.



Edrych a ddylai rhywun fod wedi cael GIP

Gall person ofyn i rywun edrych ar y gofal y mae wedi ei gael. Er enghraifft, pan fyddan nhw wedi talu tuag at eu gofal ac maen nhw'n meddwl nad yw hyn yn iawn.



Fe fydden ni'n edrych yn ôl ar yr **asesiadau** sydd wedi cael eu gwneud. Mae hyn yn cael ei alw'n **adolygiad ôl-weithredol**.



Y broblem:

Rydyn ni'n meddwl y dylai'r ffordd y mae hyn yn digwydd fod yn well ac yn gliriach.

Y pethau rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd:


Rydyn ni'n meddwl y dylai hyn gael ei dorri i lawr yn ddau gam:



Y cam cyntaf yw dilyn rhestr wirio. Mae hyn yn edrych dros hanes anghenion gofal a chefnogaeth y person.



Os byddan nhw'n dod o hyd i broblemau bydd yr ail gam yn digwydd. A bydd **adolygiad ôl-weithredol** yn digwydd.



Bydd aelod o'r staff yn ysgrifennu adroddiad. Bydd aelod arall o staff yn edrych dros hwn.



Ac yna bydd grŵp arbennig sy'n cael ei alw'n **Banel Arolygu Annibynnol** yn penderfynu a yw'r penderfyniadau gafodd eu gwneud cynt yn iawn ai peidio.



Byddan nhw'n trefnu cyfarfod â'r person. Os nad oes ar y person eisiau mynd i'r cyfarfod bydd yn rhaid i'r **panel** ei ffonio. Neu ysgrifennu ato.

Geiriau anodd

Asesiad

Mae asesiad yn digwydd pan fydd rhywun yn edrych ar eich anghenion gofal a chefnogaeth ac yn meddwl sut mae cwrdd â'r anghenion hynny.

Caniatâd

Mae caniatâd yn meddwl cytuno i rywbeth. Er enghraifft, cytuno i gael math o ofal iechyd a chefnogaeth.

Canlyniadau

Mae canlyniadau yn nodau a ddylai gael eu cyrraedd trwy'r gofal a'r gefnogaeth sy'n cael eu rhoi.

Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych chi'r hawl i gael GIP oherwydd eich anghenion iechyd.

Eiriolwr

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad ar eich rhan.

Galluedd

Pan nad yw'r galluedd gan rywun mae'n meddwl nad yw'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

Polisiau

Mae polisiau yn rheolau sy'n dweud pa ffordd i wneud pethau.